# Hyrddiad Gwybodaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Haf 2022

## Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y Newyddion yr Haf hwn:

- Dirywiad system gyfrifiadurol yn effeithio ar 111 a meddyg teulu y tu allan i oriau
- WAST yn mynychu Sioe Frenhinol Cymru
- Gorsaf ambiwlans newydd Bae Ceredigion wedi ei hagor yn swyddogol
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn mynd yn wyrddach gyda char ymateb hybrid plug-in newydd
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dathlu cydweithwyr sydd wedi gwasanaethu ers tro yng ngorllewin Cymru
- Ymddiriedolaeth yn dathlu staff a gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu ers tro yng nghanolbarth Cymru
- Marwolaeth parafeddyg o Bwllheli Robin Parry Jones
- System gymorth brysbennu ffôn newydd yn fyw ar gyfer galwadau 999 (Saesneg yn unig)
- Lansio gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer pobl fyddar
- Gorsaf Ambiwlans Caerdydd yn gwobrwyo enillwyr cystadleuaeth poster
- Apêl am wybodaeth ar ôl i ambiwlans gael ei fandaleiddio
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn dathlu cydweithwyr sydd wedi gwasanaethu ers tro
- Un o hoelion wyth y gwasanaethau ambiwlans yn cael ei gydnabod yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd Jiwbilî'r Frenhines (Saesneg yn unig)
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dathlu Wythnos Gwirfoddolwyr

## Cynllun Tymor Canolig Integredig Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cymeradwywyd Cynllun Tymor Canolig Integredig eleni gan Lywodraeth Cymru ar 13 Gorffennaf. Mae ein cynllun wedi'i lywio gan Fwriadau Comisiynu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, a gofynion y Bwrdd Rhaglen 111, a pholisïau a strategaethau a ddatblygwyd ar lefel Llywodraeth Cymru; yn arbennig, y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng; ond hefyd gan ein cred y gallwn chwarae mwy o ran wrth ddarparu'r gofal a'r cyngor cywir, yn y man cywir, bob tro. Er gwaethaf yr heriau, mae ein cynllun yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy.

Byddwn yn gweithio'n agos â phartneriaid ac yn parhau i wrando ar ein cydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau i fireinio, ac o bosibl i ailddiffinio, ein hamcanion sefydliadol wrth i ni barhau i ddatblygu ein huchelgeisiau. Mae'r cynllun i'w weld ar

wefan WAST yma (Saesneg yn unig), ac i weld y poster sy’n crynhoi’r cynllun, cliciwch ar y dolenni canlynol:

**Cymraeg**

https://ambiwlans.gig.cymru/ffeiliau/cyhoeddiadau/imtpsummaryposterpublicversionfinalcymraegpdf/

**Saesneg**

https://ambulance.nhs.wales/files/publications/strategies/imtpsummaryposterpublicversionfinalenglishpdf/

## Adroddiad Amlygu Profiad y Claf

Mae ein hadroddiad ar Brofiad y Claf a Chynnwys y Gymuned ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2022 bellach ar gael, a gallwch gael gwybod beth rydym wedi bod yn ei wneud, wrth glicio ar y PDF isod (Saesneg yn unig):

PDF
Highlight Report
April - June 22.pdf

## Ymgyrch ‘Shoctober’ Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn Ysgolion Cynradd

Unwaith eto, bydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ymweld ag ysgolion cynradd ledled Cymru yn ystod mis Hydref i hyrwyddo ‘Shoctober’. Nod yr ymgyrch yw dysgu sgiliau achub bywyd i blant ysgol iau. Bydd disgyblion yn dysgu am adfywio cardio-pwlmonaidd, yr ystum adfer, diffibrilwyr a sut i ymdrin â rhywun sy’n tagu.

## Ap gemau dwyieithog ‘Blue Light Hub’

Mae’r ap wedi’i anelu at blant 7 i 12 oed ac mae’n cynnwys pedair gêm sy’n addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 am yr hyn sy’n digwydd pan fyddant yn ffonio 999, y defnydd priodol o 999, sut mae adnoddau ambiwlans yn cael eu hanfon, a’r gwisgoedd gwahanol y gallent eu gweld ymhlith staff y GIG. Mae’r ap ‘Blue Light Hub’ ar gael am ddim i’w lawrlwytho o wefannau apiau Google ac Apple.



## Bar Offer Hygyrchedd 'ReciteMe'

Mae 'ReciteMe', sydd ar gael ar wefan GIG 111 Cymru, yn galluogi ymwelwyr i addasu'r wefan mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae'r feddalwedd hygyrchedd yn cynnig nifer o swyddogaethau gan gynnwys rhaglen darllen sgrin, offer cymorth darllen, newid maint y ffont a'r lliw cefndir, a chyfieithu'r testun i dros 100 o ieithoedd gan gynnwys 35 o leisiau testun i leferydd. I lansio'r feddalwedd, ewch i 111.wales.nhs.uk a chliciwch ar 'ReciteMe'.

## Rydym eisiau eich adborth…

A ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau yn ddiweddar? Rydym eisiau eich adborth gonest i'n helpu i ddysgu a gwella. Mae gennym amrywiaeth o Arolygon Profiad Cleifion y gallwch eu defnyddio i ddweud wrthym am ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, ac i lenwi arolwg, dewiswch y ddolen briodol isod:

- Rhowch wybod i ni am eich profiad o ffonio 999 am ambiwlans brys
- Rhowch wybod i ni am eich profiad o ddefnyddio Gwasanaeth Cludiant Cleifion Nad Ydynt yn Achosion Brys
- Rhowch wybod i ni am eich profiad o ffonio GIG 111 Cymru
- Rhowch wybod i ni am eich profiad o ddefnyddio gwefan GIG 111 Cymru

Hefyd, gallwch roi gair o ganmoliaeth, neu wneud sylw cyffredinol, neu roi eich adborth i ni ar-lein gan ddefnyddio ein ffurflen 'Dweud Eich Dweud'.

## Ymchwil Allanol i'r defnydd o 999 – gwahoddiad i gymryd rhan mewn cyfweliad ffôn neu ar-lein:

STRETCHED
Interview Engagemen

## Bwth Fideo Rhithiol (eich stori fel claf)

Gallwch rannu eich stori fel claf wrth ddefnyddio ein 'Bwth Fideo Rhithiol' newydd. Os ydych chi'n glaf, yn berthynas neu'n ofalwr, mae gwrando ar eich profiadau o ddefnyddio Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ein helpu ni i ddeall beth rydym yn ei wneud yn dda a beth allem ei wneud yn well. Rydym yn defnyddio'r straeon hyn i ddeall sut deimlad yw bod yn ddefnyddiwr ein gwasanaethau; mae clywed profiad yn cael ei adrodd gan lais yr unigolyn ei hun yn cyfleu llawer mwy o bŵer emosiynol na darllen adroddiad, ac mae'n ein hatgoffa o'r bod dynol sydd wrth wraidd ein prosesau a'n gweithdrefnau.




Os oes gennych stori i'w rhannu, ewch i'r [gwasanaeth Bwth Fideo Rhithiol ar ein gwefan](#).

## Y Rhwydwaith Pobl a Chymunedau

Bydd Rhwydwaith Pobl a Chymunedau Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn eich galluogi i ymwneud mwy â Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a dweud eich dweud am sut y caiff ein gwasanaethau eu darparu. Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith Pobl a Chymunedau, llenwch y [ffurflen ar-lein hon](#).

## Defnyddiwch Ein Gwasanaeth yn Ddoeth

Rydym yn brysur iawn yma yn [#TîmWAST](#). Defnyddiwch ein gwasanaeth yn ddoeth a chadwch 999 ar gyfer y rhai sydd wir angen ambiwlans. Mae Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn derbyn nifer fawr iawn o alwadau ar hyn o bryd, ac nid oes angen ambiwlans ar bawb sy'n ffonio 999, mae'n bosibl bod gwasanaethau eraill a allai helpu. Dyma rai dolenni sy'n esbonio rhagor:

- [Pa wasanaeth sydd ei angen arnaf?](#)
- [Canfod gwasanaethau yn agos atoch chi](#)

# Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru:

- **Cynllun gweithredu drafft i roi diwedd ar gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yng Nghymru**

- **Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol**

- **Cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

- **Amgylchedd bwyd iach**
- **Cynnig i ddod â gwerthiant diodydd egni i blant o dan 16 oed i ben**

- **Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru**

- **Fersiwn ddrafft o’r fframwaith trin camddefnyddio sylweddau a safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yng Nghymru**

- **Newyddion Eraill yn ymwneud ag Iechyd:**
- **Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog pobl i gymryd gofal yn y tywydd poeth iawn**
- **Mae profion a thriniaeth gymunedol yn allweddol i ymdrechion byd-eang i ddileu hep c**
- **Datganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr achosion o frech y mwncïod yn y DU**
- **Datganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar achos wedi'i gadarnhau o frech y mwncïod**
- **Bydd mynd i’r afael ag amodau gwaith yn gwella iechyd a llesiant da i bawb**
- **Cryptosporidiwm a ffermydd agored**
- **Y Diweddaraf: Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i achosion o hepatitis acíwt mewn plant**

## Newyddion Eraill:

**Gofalwyr**


**Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ar gyfer Pobl â Dementia:**

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch y ddolen hon: Fy Mywyd, Fy Nymuniadau

**Cynhaliwyd Wythnos Anableddau Dysgu rhwng 20 a 26 Mehefin 2022, a’r thema eleni oedd:**
**Byw Bywyd gydag Anabledd Dysgu**
Dysgwch fwy wrth ddilyn y ddolen hon (Saesneg yn unig): https://www.mencap.org.uk/LDWeek

**Cynhaliwyd Wythnos Gofalwyr 2022 rhwng 6 a 12 Mehefin. Y thema eleni oedd: ‘Sicrhau bod gofalwyr yn cael eu gweld, eu gwerthfawrogi a’u cefnogi’.**




Dysgwch fwy am eich ardal leol wrth gysylltu â Gofalwyr Cymru.

**Mae’n bleser gan Carers UK lansio arolwg State of Caring 2022, gan annog gofalwyr yn eich gweithle i gymryd rhan.** Dyma’r ymchwil mwyaf cynhwysfawr yn y DU i fywydau a phrofiadau gofalwyr, ac mae’r holl wybodaeth a gaiff ei chasglu yn helpu i greu darlun o sut beth yw gofalu ar hyn o bryd a blaenoriaethau gofalwyr ar gyfer y dyfodol.

**Y dyddiad cau yw 9 Medi** a bydd Carers UK yn rhyddhau adroddiad ymchwil ym mis Tachwedd. **Gallwch gael mynediad at yr arolwg yma (Saesneg yn unig)**

**Gwybodaeth am y Gronfa Gymorth i Ofalwyr – Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru**

Yn ystod Wythnos Gofalwyr eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth £4.5 miliwn ychwanegol ar gyfer darparu'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn ystod 2022-25. Bydd y gronfa yn cael ei threfnu gan Bartneriaid Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac felly maent yn ceisio ymgysylltu â gofalwyr a rhanddeiliaid eraill i sefydlu blaenoriaethau cyn cynllunio a chyflwyno eu cynigion ym mis Medi. I'w helpu i lunio eu cynigion, byddent yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd 2 i 3 munud i lenwi'r arolwg hwn gan y byddent yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr (Saesneg yn unig): https://www.surveymonkey.co.uk/r/carers-and-their-finances.

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr arolwg ar wahân ar gyfer gofalwyr** sydd i'w weld yn https://www.surveymonkey.co.uk/r/gofalu-ach-arian. Mae fersiwn Saesneg yr arolwg gofalwyr ar gael yn https://www.surveymonkey.co.uk/r/caring-and-your-finances.

**Cymorth i Aelwydydd – Cymorth costau byw**

Mae'r Llywodraeth wedi lansio ymgyrch 'Cymorth i Aelwydydd' i ddod â phecynnau cymorth ynghyd sy'n helpu i leddfu effaith costau byw. Mae 41 o gynlluniau ar gael i gefnogi dinasyddion, a gellir dod o hyd i bob un ohonynt ar wefan newydd **Help for Households** (Saesneg yn unig).

## Coronafeirws:

- Newidiadau i wyliadwriaeth Covid-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Syndrom Ôl-Covid-19 / Covid Hir.

**Cynghorau Iechyd Cymuned: Arolwg yn dilyn y Pandemig Covid**

Sefydlwyd Ymchwiliad Covid-19 y DU i archwilio parodrwydd ac ymateb y DU i'r pandemig Covid-19 ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Bydd profiadau pobl Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n briodol ac yn drylwyr yn yr ymchwiliad. Bydd tîm yr ymchwiliad hefyd yn craffu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru siarad â phobl am eu profiadau yn ystod y pandemig a chasglu adborth gan y cyhoedd yng Nghymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr ymchwiliad.

Rhannwch eich profiadau â'r Cynghorau Iechyd Cymuned:

• Ar-lein yn: https://dweudeichdweudcicgigcymru.uk.engagementhq.com/pa-effaith-gafodd-y-pandemig-arnoch-chi

• Wrth sganio'r cod QR gyda'ch ffôn clyfar neu ddyfais symudol

• Wrth ffonio neu anfon neges e-bost i ofyn am gopi caled o'r arolwg (mae'n cynnwys amlen â chyfeiriad a stamp, er hwylustod)

E-bost: swanseabay@waleschc.org.uk

Ffôn: 01639 683490

*Bodloni anghenion unigol – Gall aelod o Dîm CIC lenwi'r arolwg ar eich rhan wrth i chi siarad â nhw am eich profiad ar y ffôn*

Fformatau eraill

- Hawdd ei ddarllen ac ieithoedd eraill: Ymchwiliad Covid-19 - Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (gig.cymru)

Anfonwch eich safbwyntiau a'ch sylwadau erbyn **dydd Gwener 30 Medi 2022**.

**Arolwg yn dilyn y Pandemig, gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru):** ADSS Cymru yw llais arweinyddiaeth broffesiynol a strategol y gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Os oeddech wedi defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y Pandemig, mae ADSS Cymru yn eich gwahodd i rannu eich profiadau yn ein harolwg byr ar-lein. Mae'r arolwg hwn yn rhan o adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn gweithio yng Nghymru yn ystod y pandemig Covid-19.

Rhannwch eich profiadau o wasanaethau gofal cymdeithasol drwy gydol Pandemig Covid-19 ag ADSS Cymru

Share your experiences of social care services throughout the Covid-19 Pandemic (adss.cymru)

contact@adss.cymru

## Iechyd a Lles:

- A ydych chi'n aros yn gorfforol iach, yn gofalu am eich iechyd meddwl, yn cadw mewn cysylltiad ac yn helpu eraill? Sut wyt ti?
- Mae taflen Cymorth Iechyd Meddwl Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn offeryn defnyddiol sy'n gallu'ch cyfeirio at nifer o linellau cymorth rhagorol.
- Gall unrhyw un sy'n dioddef trais domestig gysylltu â Byw Heb Ofn, am ddim dros y ffôn, neu drwy sgwrs ar-lein, neges destun neu neges e-bost – 0808 80 10 800.
- Platfform, Rhaglen Les Ar-lein i Rieni a Gofalwyr – bydd y Rhaglen Les Ar-lein yn rhoi'r offer a'r wybodaeth i chi helpu i gefnogi eich iechyd meddwl a'ch lles eich hun a'ch plentyn.

## Edrych i'r dyfodol:

- Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd – 10 Medi
- Diwrnod Iechyd Meddwl Ieuenctid - 19 Medi
- Wythnos Iechyd Rhywiol 13 - 18 Medi
- Diwrnod Dathlu Deurywioldeb 23 Medi
- Wythnos Genedlaethol Gofal Llygaid 19 - 25 Medi
- Mis Cenedlaethol Ymwybyddiaeth o Drais Domestig
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn – 1 Hydref
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd – 10 Hydref
- Wythnos Atal Caethwasiaeth 17 – 23 Hydref
- Diwrnod Atal Caethwasiaeth – 18 Hydref
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 8 – 15 Hydref
- Diwrnod Adfywio'r Galon 16 Hydref
- Shoctober
- Stoptober
- Ymgyrch Rhuban Gwyn 25 Tachwedd

## Cysylltwch â ni:

Tîm Profiad Cleifion a Chynnwys y Gymuned
**Ffôn**: 0300 123 9207 **E-bost**: Peci.team@wales.nhs.uk